## Uned 3

## Achosion Afiechyd mewn Anifeiliaid Fferm

## Nodiadau'r Athro

### Cyflwyniad

Bydd y sesiwn theori hon yn cymryd y dysgwr drwy **achosion afiechyd** mewn anifeiliaid fferm, a'u dosbarthu i grwpiau. Y rhain yw:

- organebau niweidiol - pathogenau
- amgylchedd yr anifail
- niwed corfforol
- ffactorau maethol
- anhwylderau metabolig
- straen
- cemegau
- alergeddau
- problemau etifeddol

Bydd yn symud ymlaen i gyflwyno'r syniad o **ffactorau rhagdueddol** a rôl y ffermwr da byw wrth geisio lleihau'r ffactorau hyn.

Gallai'r sesiwn hon ddechrau gyda lluniau o anifeiliaid sâl er mwyn symbylu trafodaeth yn y grŵp am brif achosion afiechyd.

### Geiriau allweddol

Proffylactig
Ffactorau rhagdueddol
Pathogenau

### Adnoddau

- Nodiadau'r Myfyriwr
- Darn Fideo o Anifeiliaid Iach yn Uned 2
- Gwefannau Perthnasol

### Gweithgareddau i roi tystiolaeth bod dysgu wedi digwydd

- Gweithgaredd Dysgwr - Dosbarthu Clefydau Cyffredin i Grwpiau Pathogenaidd